

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr ar Gostau Byw (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr ar Gostau Byw (Cymru) 2021.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

6 Gorffennaf 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o fenthyciad ar gostau byw (a elwir hefyd yn fenthyciad cynhaliath) myfyriwr israddedig llawnamser ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022 o dan amgylchiadau penodol. Bydd y dilead yn cael effaith o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y bydd ad-daliad cyntaf y myfyriwr ar ei fenthyciad wedi ei gael.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(2)(g), (3)(d) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998") ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy o ran Cymru.

Trosglwyddodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd pob un o'r swyddogaethau hyn wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 iddi.

Bydd myfyrrwr israddedig sy'n cael benthyciad ar gostau byw gan Weinidogion Cymru ym blwyddyn academaidd 2021/2022 yn gwneud hynny o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwr) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/47 (Cy. 21)) neu Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/191 (Cy. 42)), gan ddibynnu ar ba bryd y mae eu cwrs yn dechrau.

Mae darpariaethau sy'n ymwneud ag ad-dalu benthyciadau ar gostau byw wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Addysg Benthyciadau i Fyfyrrwr 2009 (O.S. 2009/470), (fel y'u diwygir) a wnaed ar sail gyfansawdd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22 a 42 o Ddeddf 1998 ac adrannau 5 a 6 o Ddeddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrrwr 2008.

Bydd yr offer yn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i fyfyrrwr, sy'n cael benthyciad ar gostau byw gan Weinidogion Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 mewn cysylltiad â chwrs israddedig llawnamser, elwa ar ostyngiad o hyd at

£1,500 ym malans eu benthyciad pan fyddant yn dechrau ad-dalu eu benthyciad. Ni fydd hyn ar ffurf cyfandaliad arian parod; yn hytrach bydd balans benthyciad unigolyn yn cael ei ostwng gan y swm priodol y diwrnod ar ôl i ad-daliad cyntaf y benthyciwr gael ei wneud.

Dim ond unwaith y gall myfyriwr gael dilead rhannol; ni all gael dilead rhannol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2021/22 os yw eisoes wedi cael dilead mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol. Ni fydd gan fyfyriwr hawl i gael dilead rhannol os oes unrhyw gosbau neu daliadau heb eu talu neu os yw'n torri cytundeb ei fenthyciad neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gan fod y Rheoliadau hyn yn dechnegol eu natur ac ond yn diweddarau'r flwyddyn academaidd y bydd y cynllun hwn yn gweithredu ynddi.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol gan fod y Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol nad ydynt yn cael effaith fawr ar bolisi. Mae hyn yn unol â chod Gweinidogion Cymru ar wneud asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.